

---

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

---

**2010 Rhif 66 (Cy.16)**

**DŴR, CYMRU**

**Rheoliadau Cyflenwadau Dŵr Preifat (Cymru) 2010**

<i>Gwnaed</i>	- - - -	<i>13 Ionawr 2010</i>
<i>Gosodwyd gerbron Cynulliad</i>		
<i>Cenedlaethol Cymru</i>	- -	<i>14 Ionawr 2010</i>
<i>Yn dod i rym</i>	- -	<i>4 Chwefror 2010</i>

Dynodir Gweinidogion Cymru(1) at ddibenion adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972(2) mewn perthynas ag ansawdd dŵr a fwriedir at ddibenion domestig neu ar gyfer ei ddefnyddio mewn menter cynhyrchu bwyd.

Mae Gweinidogion Cymru wedi cynnal yr ymgynghoriad sy'n ofynnol o dan Erthygl 9 o Reoliad (EC) Rhif 178/2002 Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n pennu egwyddorion cyffredinol cyfraith bwyd, yn sefydlu Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop ac yn pennu gweithdrefnau o ran materion diogelwch bwyd(3).

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972 ac adran 67, 77(3) a (4) a 213(2) o Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991(4).

---

(1) [O.S. 2004/3328](#), fel y'i diwygiwyd gan [O.S. 2005/850](#), [O.S. 2007/1349](#), [O.S. 2008/301](#). Mae'r swyddogaethau a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru drwy gyfrwng y Gorchymyn hwnnw bellach yn arferadwy gan Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o [Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 \(p.32\)](#) a pharagraff 30 o Atodlen 11 i'r Ddeddf honno.

(2) [1972 p.68](#).

(3) [OJ Rhif L31, 1.2.2002, t. 1.](#)

(4) [1991 p.56](#). Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 67 i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ("Y Cynulliad") — (a) ar gyfer gwneud rheoliadau ynghylch dŵr a gyflenwir drwy ddefnyddio system gyflenwi ymgymerwr dŵr, mewn perthynas â system gyflenwi unrhyw ymgymerwr dŵr sydd â'i ardal yn gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru a (b) ar gyfer gwneud rheoliadau ynghylch dŵr a gyflenwir ac eithrio drwy ddefnyddio system gyflenwi ymgymerwr dŵr, mewn perthynas â Chymru, gan Erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 ([O.S. 1999/672](#)) ("y Gorchymyn") ac Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwnnw; trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 77 o Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991 i'r Cynulliad o ran Cymru, gan yr un darpariaethau o'r Gorchymyn; yr oedd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 213 o Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991 yn arferadwy gan y Cynulliad i'r un graddau ag y gwnaed y pwerau y mae'r adran honno'n gymwys iddynt yn arferadwy gan y Cynulliad, yn rhinwedd yr un darpariaethau o'r Gorchymyn; gweler y cofnod ar gyfer Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991 yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn fel y'i hamnewidiwyd gan baragraff (e) o Atodlen 3 i'r Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 2000 ([O.S. 2000/253](#)) ac y'i diwygiwyd gan adran 100(2) o [Ddeddf Dŵr 2003 \(p.37\)](#); y mae offerynnau diwygio eraill, ond nid oes yr un ohonynt yn berthnasol. Diwygiwyd adran 213 o Ddeddf y Diwydiant Dŵr gan adrannau 58 a 101(1) o Ddeddf Dŵr 2003 a pharagraff 39 o Atodlen 7 iddi a pharagraffau 2, 19 a 49 o Atodlen 8 iddi. Mae adran 100(6) o Ddeddf Dŵr 2003 yn trin y cyfeiriadau at adrannau penodol o Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991 yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn fel pe baent yn gyfeiriadau at yr adrannau hynny fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Dŵr 2003. Am ddiffiniad o "system gyflenwi" gweler y diffiniad o "supply system" yn adran 219(4A) o Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991, fel y'i mewnosodwyd gan adran 101(1) o Ddeddf Dŵr 2003 a pharagraffau 2 a 50 o Atodlen 8 iddi. Am ddiffiniad o "cyflenwr dŵr trwyddedig" gweler y diffiniad o "licensed water supplier" yn adran 219(1) o Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991 fel y'i diwygiwyd gan adran 101(1) o Ddeddf Dŵr 2003 a pharagraffau 2 a 50 o Atodlen 8 iddi. Yn rhinwedd adran 162 o [Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 \(p.32\)](#) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r swyddogaethau a roddwyd i'r Cynulliad bellach yn arferadwy gan Weinidogion Cymru.

## RHAN 1

### Safonau dŵr

#### Enwi, cymhwyso a chychwyn

1. Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cyflenwadau Dŵr Preifat (Cymru) 2010; maent yn gymwys o ran Cymru a deuant i rym ar 4 Chwefror 2010.

#### Cwmpas

2. Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran cyflenwadau preifat o ddŵr a fwriedir i'w yfed gan bobl; ac at y dibenion hyn, ystyr "dŵr a fwriedir i'w yfed gan bobl" ("water intended for human consumption") yw—

- (a) pob dŵr, naill ai yn ei gyflwr gwreiddiol neu ar ôl ei drin, a fwriedir ar gyfer yfed, coginio, paratoi bwyd neu ddibenion domestig eraill, beth bynnag fo'i darddiad a pha un a'i cyflenwir o rwydwaith dosbarthu, neu o danc neu mewn poteli neu gynwysyddion;
- (b) pob dŵr a ddefnyddir mewn unrhyw ymgymeriad cynhyrchu bwyd ar gyfer gweithgynhyrchu, prosesu, cyffeithio neu farchnata cynhyrchion neu sylweddau a fwriedir ar gyfer eu bwyta gan bobl.

#### Esemptiadau

3. Nid yw'r rheoliadau hyn yn gymwys mewn perthynas ag —

- (a) dŵr y mae'r Rheoliadau Dŵr Mwynol Naturiol, Dŵr Ffynnon a Dŵr Yfed wedi'i Botelu (Cymru) 2007(5) yn gymwys iddo;
- (b) dŵr sy'n gynnwys meddyginiaethol yn yr ystyr a roddir i "medicinal product" yn Neddf Meddyginiaethau 1968(6); neu
- (c) dŵr a ddefnyddir yn unig ar gyfer golchi cnwd ar ôl ei gynaeafu, ac nad yw'n effeithio ar addasrwydd y cnwd, nac unrhyw fwyd neu ddiod sy'n tarddu o'r cnwd, ar gyfer ei fwyta neu ei yfed gan bobl.

#### Iachusrwydd

4. Mae dŵr yn iachus os bodlonir pob un o'r amodau canlynol —

- (a) nad yw'n cynnwys unrhyw ficro-organeb, parasit neu sylwedd mewn crynodiad neu werth a fyddai, ar ei ben ei hunan neu ar y cyd ag unrhyw sylwedd arall, yn creu perygl posibl i iechyd dynol;
- (b) ei fod yn cydymffurfio â'r crynodiadau a'r gwerthoedd a bennir yn Rhan 1 o Atodlen 1; ac
- (c) yn y dŵr:

$$\frac{\text{nitrate (mg/l)}}{50} + \frac{\text{nitrite (mg/l)}}{3} \leq 1.$$

(5) O.S. 2007/3165 (Cy.276) fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2009/1897 (Cy.170).

(6) 1968 p.67.

## **Diheintio**

5.—(1) Pan fo diheintio yn rhan o baratoi neu ddsbarthu dŵr, rhaid i'r person perthnasol (fel y'i diffinnir yn adran 80 o Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991(7))—

- (a) cynllunio, gweithredu a chynnal y broses ddiheintio er mwyn cadw unrhyw halogi gan sgil-gynhyrchion diheintio mor isel ag y bo modd,
- (b) cyflawni'r broses honno heb beryglu perfformiad y broses o ddiheintio,
- (c) sicrhau y cynhelir perfformiad y broses o ddiheintio,
- (ch) er mwyn gwirio perfformiad y broses o ddiheintio, cadw cofnodion o'r gwaith cynnal a gyflawnir i gydymffurfio â gofynion y broses ddiheintio, a
- (d) cadw copiâu o'r cofnodion hynny ar gael i'w harchwilio gan yr awdurdod lleol, am gyfnod o hyd at bum mlynedd.

(2) Yn y rheoliad hwn, ystyr “diheintio” yw proses o drin dŵr er mwyn—

- (a) tynnu ymaith; neu
- (b) gwneud yn ddiniwed i iechyd dynol,

pob micro-organeb pathogenig a pharasit pathogenig a fyddai, fel arall, yn bresennol yn y dŵr.

## **Gofyniad i gynnal asesiad risg**

6.—(1) Rhaid i awdurdod lleol gynnal asesiad risg, o fewn pum mlynedd o'r adeg y daw'r Rheoliadau hyn i rym, ac wedyn bob pum mlynedd (neu'n gynharach os ystyrir hynny'n angenrheidiol, neu os yw o'r farn bod yr asesiad risg blaenorol yn annigonol) o bob cyflenwad preifat sy'n cyflenwi dŵr i unrhyw fangre yn ei ardal (ac eithrio cyflenwad sy'n cyflenwi dŵr i annedd breifat sengl yn unig, ac nas defnyddir ar gyfer unrhyw weithgarwech masnachol).

(2) Rhaid iddo hefyd gynnal asesiad risg o gyflenwad preifat i annedd breifat sengl yn ei ardal os gofynnir iddo wneud hynny gan berchennog neu feddiannydd yr annedd honno.

(3) Rhaid i'r asesiad risg benderfynu a oes risg sylweddol o gyflenwi dŵr a fyddai'n achosi perygl posibl i iechyd dynol.

# **RHAN 2**

## **Monitro**

### **Monitro**

7. Rhaid i awdurdod lleol fonitro'r holl gyflenwadau preifat yn unol â'r Rhan hon wrth gyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 77(1) o Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991(8).

### **Dosbarthu ymhellach cyflenwadau a geir gan ymgymerwyr dŵr neu gyflenwyr dŵr trwyddedig**

8. Pan gyflenwir dŵr gan ymgymerwr dŵr neu gyflenwr dŵr trwyddedig ac yna dosberthir y dŵr hwnnw ymhellach gan berson nad yw'n ymgymerwr dŵr nac yn gyflenwr dŵr trwyddedig, rhaid ymgymryd ag unrhyw fonitro y dangosir ei fod yn angenrheidiol yn yr asesiad risg.

---

(7) 1991 p.56.

(8) 1991 p.56.

**Cyflenwadau mawr a chyflenwadau i fangreoedd masnachol neu gyhoeddus**

9. Yn achos cyflenwad preifat (ac eithrio cyflenwad fel a nodir yn rheoliad 8) sydd —
- (a) yn cyflenwi cyfaint dyddiol cyfartalog o  $10\text{m}^3$  neu ragor o ddŵr, neu
  - (b) yn cyflenwi dŵr i fangre lle y defnyddir y dŵr ar gyfer gweithgaredd masnachol, neu i fangre gyhoeddus,

rhaid i'r awdurdod lleol fonitro yn unol ag Atodlen 2 a chyflawni unrhyw fonitro ychwanegol y mae'r asesiad risg yn dangos ei fod yn angenrheidiol.

**Cyflenwadau preifat eraill**

10.—(1) Ym mhob achos arall ac eithrio cyflenwad preifat i annedd sengl nas defnyddir ar gyfer unrhyw weithgarwch masnachol, neu gyflenwad sy'n gymwys o dan reoliadau 8 a 9, rhaid i'r awdurdod lleol fonitro ar gyfer—

- (a) dargludedd;
- (b) enterococi;
- (c) *Escherichia coli* (*E. coli*);
- (ch) y crynodiad ïonau hydrogen;
- (d) cymylogrwydd;
- (dd) unrhyw baramedr yn Atodlen 1 y nodir, yn yr asesiad risg, bod risg y gallai beidio â chydymffurfio â'r crynodiadau neu'r gwerthoedd yn yr Atodlen honno; ac
- (e) unrhyw beth arall y nodir yn yr asesiad risg y gallai greu perygl posibl i iechyd dynol.

(2) Rhaid iddo fonitro o leiaf bob pum mlynedd a chyflawni monitro ychwanegol os yw'r asesiad risg yn dangos bod hynny'n angenrheidiol.

(3) Yn achos cyflenwad preifat i annedd breifat sengl nas defnyddir ar gyfer gweithgarwch masnachol, caiff awdurdod lleol fonitro'r cyflenwad yn unol â'r rheoliad hwn, a rhaid iddo wneud hynny os gofynnir iddo gan y perchennog neu'r meddiannydd.

**Samplu a dadansoddi**

11.—(1) Pan fo awdurdod lleol yn monitro cyflenwad preifat, rhaid iddo gymryd sampl—

- (a) os cyflenwir y dŵr at ddibenion domestig, o dap a ddefnyddir fel rheol i ddarparu dŵr i'w yfed gan bobl, ac os oes mwy nag un tap, o dap sy'n gynrychiadol o'r dŵr a gyflenwir i'r fangre;
- (b) os defnyddir y dŵr mewn ymgymeriad cynhyrchu bwyd, o'r pwynt lle y'i defnyddir yn yr ymgymeriad;
- (c) os cyflenwir y dŵr o dancer, o'r pwynt lle mae'n dod allan o'r tancer;
- (ch) mewn unrhyw achos arall, o bwynt addas.

(2) Rhaid iddo sicrhau wedyn y dadansoddi'r sampl.

(3) Mae Atodlen 3 yn gwneud darpariaeth bellach ynglŷn â samplu a dadansoddi.

**Cynnal cofnodion**

12. Rhaid i awdurdod lleol wneud a chadw cofnodion mewn perthynas â phob cyflenwad preifat yn ei ardal yn unol ag Atodlen 4.

### Cyflwyno gwybodaeth

13. Erbyn 31 Gorffennaf 2010, ac erbyn 31 Ionawr ym mhob blwyddyn ddilynol, rhaid i bob awdurdod lleol—

- (a) anfon copi o'r cofnodion a nodir yn Atodlen 4 at Brif Arolygydd Dŵr Yfed Cymru; a
- (b) anfon copi o'r cofnodion hynny at Weinidogion Cymru os gofynnir amdano.

## RHAN 3

### Gweithredu yn dilyn methiant

#### Darparu gwybodaeth

14. Os yw'r awdurdod lleol o'r farn bod cyflenwad preifat yn ei ardal yn creu perygl posibl i iechyd dynol, rhaid iddo gymryd camau priodol i sicrhau bod y bobl sy'n debygol o yfed dŵr ohono—

- (a) yn cael gwybod bod y cyflenwad yn creu perygl posibl i iechyd dynol;
- (b) pan fo modd, yn cael gwybod pa mor ddifrifol yw'r perygl posibl; ac
- (c) yn cael cyngor i'w galluogi i leihau unrhyw berygl posibl o'r fath.

#### Ymchwilio

15. Rhaid i awdurdod lleol gynnal ymchwiliad i ganfod yr achos os yw'n amau bod y cyflenwad yn afiachus neu nad yw paramedr dangosydd yn cydymffurfio â'r crynodiadau neu'r gwerthoedd yn Rhan 2 o Atodlen 1.

#### Gweithdrefn yn dilyn ymchwiliad

16.—(1) Unwaith y bydd awdurdod lleol wedi cynnal ymchwiliad ac wedi canfod achos afiachusrwydd y dŵr, rhaid iddo weithredu yn unol â'r rheoliad hwn.

(2) Os yw achos y dŵr afiachus yn y pibwaith o fewn annedd sengl, rhaid iddo roi gwybod yn ddi-oed i'r bobl a wasanaethir a chynnig cyngor iddynt ynghylch y mesurau sy'n angenrheidiol i ddiogelu iechyd dynol.

(3) Fel arall, os na all yr awdurdod lleol ddatrys y broblem yn anffurfiol—

- (a) caiff yr awdurdod lleol, os gwneir cais, ganiatáu awdurdodiad yn unol â rheoliad 17(2) os bodlonir yr amodau yn y rheoliad hwnnw; a
- (b) os nad yw'n caniatáu awdurdodiad, rhaid i'r awdurdod lleol (neu, yn achos cyflenwad i annedd breifat sengl, caiff yr awdurdod lleol) gyflwyno hysbysiad, naill ai'n unol ag adran 80 o Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991(9) neu o dan reoliad 18 os bodlonir yr amodau yn y rheoliad hwnnw.

#### Awdurdodi safonau gwahanol

17.—(1) Caiff unrhyw berson wneud cais i awdurdod lleol am ganiatáu awdurdodiad o dan y rheoliad hwn.

(2) Caiff awdurdod lleol ganiatáu awdurdodiad ar gyfer safonau gwahanol o dan y rheoliad hwn —

---

(9) 1991 p.56.

- (a) os yr unig achos sy'n peri bod y dŵr yn afiachus yw na chydymffurfir â pharamedr yn Nhabl B o Ran 1 o Atodlen 1 (paramedrau cemegol);
  - (b) os yw'r awdurdod lleol wedi ymgynghori gyda'r holl ddefnyddwyr dŵr y mae'r awdurdodiad yn effeithio arnynt a chyda'r Asiantaeth Diogelu iechyd ar gyfer yr ardal, ac wedi cymryd eu safbwyntiau i ystyriaeth;
  - (c) os nad yw caniatáu'r awdurdodiad yn achosi risg i iechyd dynol; ac
  - (d) os na ellir cynnal y cyflenwad dŵr drwy unrhyw ddull rhesymol arall.
- (3) Rhaid i awdurdodiad wneud yn ofynnol bod y ceisydd yn gweithredu dros gyfnod o amser i sicrhau y cydymffurfir â'r paramedrau angenrheidiol, a rhaid iddo nodi —
- (a) y person y caniateir yr awdurdodiad iddo;
  - (b) y cyflenwad sydd dan sylw;
  - (c) y sail ar gyfer caniatáu'r awdurdodiad;
  - (ch) y paramedrau sydd dan sylw, y canlyniadau monitro perthnasol blaenorol a'r gwerthoedd uchaf a ganiateir o dan yr awdurdodiad;
  - (d) yr ardal ddaearyddol, amcangyfrif o faint y dŵr a gyflenwir bob diwrnod, nifer y personau y cyflenwir dŵr iddynt, a pha un a effeithir ai peidio ar unrhyw fenter cynhyrchu bwyd;
  - (dd) cynllun monitro priodol ynghyd â chynnydd yn amllder y monitro pan fo angen;
  - (e) crynodeb o'r cynllun i weithredu'r mesurau unioni angenrheidiol, gan gynnwys amserlen ar gyfer cyflawni'r gwaith, amcangyfrif o'r gost, a darpariaethau ar gyfer adolygu cynnydd; ac
  - (f) cyfnod parhad yr awdurdodiad.
- (4) Os yw awdurdod lleol yn caniatáu awdurdodiad, a'r person y'i caniateir iddo yn gweithredu yn unol â'r amserlen gwaith a bennir yn yr awdurdodiad, ni chaiff yr awdurdod lleol gyflwyno hysbysiad o dan adran 80 o Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991 ynghlŷn â'r materion a bennir yn yr awdurdodiad heb yn gyntaf ddiwygio neu ddirymu'r awdurdodiad.
- (5) Rhaid i gyfnod parhad yr awdurdodiad fod mor fyr ag y bo modd, ac ni chaiff beth bynnag fod yn hwy na thair blynedd.
- (6) Rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau bod y bobl a wasanaethir yn cael gwybod mewn da bryd am yr awdurdodiad ac amodau'r awdurdodiad, a phan fo angen, rhaid iddo sicrhau y rhoddir cyngor i grwpiau penodol a allai fod dan risg arbennig oherwydd yr awdurdodiad.
- (7) Os yw'r cyflenwad yn fwy na 1,000 mΔ y diwrnod ar gyfartaledd, neu'n gwasanaethu mwy na 5,000 o bersonau, rhaid i'r awdurdod lleol anfon copi o'r awdurdodiad at Brif Arolygydd Dŵr Yfed Cymru ac at Weinidogion Cymru o fewn un mis.
- (8) Rhaid i'r awdurdod lleol gadw hynt y gwaith unioni dan arolwg.
- (9) Os oes angen, gyda chaniatâd ymlaen llaw gan Weinidogion Cymru, caiff yr awdurdod lleol ganiatáu ail awdurdodiad am hyd at dair blynedd ychwanegol, ond os yw'n gwneud hynny rhaid iddo, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol, anfon copi o'r awdurdodiad ynghyd â sail y penderfyniad at Brif Arolygydd Dŵr Yfed Cymru ac at Weinidogion Cymru.
- (10) Caiff yr awdurdod lleol ddirymu neu ddiwygio'r awdurdodiad ar unrhyw adeg, ac yn benodol, caiff ei ddirymu neu ei amrywio os na chedwir at yr amserlen ar gyfer y gwaith unioni.

## RHAN 4

### Gweithdrefn hysbysu

#### Hysbysiadau

**18.**—(1) Os yw unrhyw gyflenwad preifat o ddŵr a fwriedir i'w yfed gan bobl yn creu perygl posibl i iechyd dynol, rhaid i awdurdod lleol sy'n gweithredu o dan y Rheoliadau hyn gyflwyno hysbysiad i'r person perthnasol (“relevant person”) (fel a ddiffinnir yn adran 80 o Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991(10)) o dan y rheoliad hwn, yn hytrach na hysbysiad o dan yr adran honno.

(2) Rhaid i'r hysbysiad—

- (a) nodi'r cyflenwad preifat y mae'n ymwneud ag ef;
- (b) datgan y sail dros gyflwyno'r hysbysiad;
- (c) gwahardd defnyddio neu gyfyngu ar y defnydd o'r cyflenwad hwnnw; ac
- (ch) pennu pa gamau eraill y mae angen eu cymryd i ddiogelu iechyd dynol.

(3) Rhaid i'r awdurdod lleol hysbysu'r defnyddwyr yn ddi-oed ynglŷn â'r hysbysiad, a darparu pa bynnag gyngor sydd ei angen.

(4) Ceir gwneud yr hysbysiad yn ddarostyngedig i amodau, a chaniateir ei ddiwygio ar unrhyw adeg drwy roi hysbysiad pellach.

(5) Rhaid i'r awdurdod lleol ddirymu'r hysbysiad ar unwaith pan nad oes bellach unrhyw berygl posibl i iechyd dynol.

(6) Mae torri neu beidio â chydymffurfio â hysbysiad a roddir o dan y rheoliad hwn yn dramgwydd.

#### Apelau

**19.**—(1) Caiff unrhyw berson a dramgwyddir gan hysbysiad a roddir o dan reoliad 18 apelio i lys ynadon o fewn 28 diwrnod ar ôl cyflwyno'r hysbysiad.

(2) Mae'r weithdrefn apelio a ddilynir mewn llys ynadon ar gyfer apêl o dan baragraff (1) ar ffurf achwyniad, ac y mae Deddf Llysoedd Ynadon 1980(11) yn gymwys i'r achosion.

(3) Bydd hysbysiad yn parhau mewn grym oni chaiff ei atal gan y llys.

(4) Mewn apêl, caiff y llys naill ai ddileu'r hysbysiad neu ei gadarnhau, gydag addasiad neu heb addasiad.

#### Cosbau

**20.**—(1) Mae person a geir yn euog o dramgwydd o dan reoliad 18 yn agored —

- (a) o'i gollfarnu'n ddiannod, i ddirwy na fydd yn fwy na'r uchafswm statudol neu gyfnod o garchar na fydd yn hwy na thri mis neu'r ddau, neu
- (b) o'i gollfarnu ar dditiad, i ddirwy neu gyfnod o garchar na fydd yn hwy na dwy flynedd, neu'r ddau.

(2) Pan fo corff corfforaethol yn euog o dramgwydd o dan y Rheoliadau hyn a phan brofir bod y tramgwydd wedi ei gyflawni gyda chydysyniad neu ymoddefiad, neu i'w briodoli i unrhyw esgeulustod ar ran, un o'r canlynol—

---

(10) 1991 p.56.

(11) 1980 p.43; amnewidiwyd adrannau 51 a 52 gan Ddeddf Llysoedd 2003 (p.39), adran 47.

- (a) unrhyw gyfarwyddwr, rheolwr, ysgrifennydd neu berson arall cyffelyb y corff corfforaethol; neu
- (b) unrhyw berson a oedd yn honni gweithredu yn rhinwedd swydd o'r fath, mae'r person hwnnw yn ogystal â'r corff corfforaethol yn euog o'r tramgwydd.
- (3) At ddibenion paragraff (2) ystyr "cyfarwyddwr" ("*director*"), mewn perthynas â chorff corfforaethol y rheolir ei faterion gan ei aelodau, yw aelod o'r corff corfforaethol.

## **RHAN 5**

### Amrywiol

#### **Ffioedd**

- 21. Mae Atodlen 5 yn gwneud darpariaeth ar gyfer ffioedd.

#### **Dirymu**

- 22. Dirymir Rheoliadau Cyflenwadau Dŵr Preifat 1991(12) o ran Cymru.

13 Ionawr 2010

*Jane Davidson*  
Y Gweinidog dros yr Amgylchedd,  
Cynaliadwyedd a Thai, un o Weinidogion Cymru



ATODLEN 1

Rheoliadau 4, 10, 15 ac 17

Crynnodiadau neu Werthoedd

**RHAN 1**

Iachusrwydd

**TABL A: PARAMEDRAU MICROBIOLEGOL****Crynnodiadau a gwerthoedd rhagnodedig**

<i>Paramedrau</i>	<i>Crynnodiad neu werth uchaf</i>	<i>Unedau mesur</i>
<i>Escherichia coli (E. coli)</i>	0	Nifer/100ml
Enterococi	0	Nifer/100ml
<b>Yn achos dŵr mewn poteli neu gynwysyddion :</b>		
<i>Escherichia coli (E. coli)</i>	0	Nifer/250ml
Enterococi	0	Nifer/250ml
<i>Pseudomonas aeruginosa</i>	0	Nifer/250ml
Cyfrifiad cytrefi 22°C	100	Nifer/ml
Cyfrifiad cytrefi 37°C	20	Nifer/ml

**TABL B: PARAMEDRAU CEMEGOL****Crynnodiadau a gwerthoedd rhagnodedig**

<i>Paramedrau</i>	<i>Crynnodiad neu werth uchaf</i>	<i>Unedau mesur</i>
Acrylamid <sup>(1)</sup>	0.10	µg/l
Antimoni	5.0	µg/l
Arsenig	10	µg/l
Bensen	1.0	µg/l
Benso(a)pyren	0.010	µg/l
Boron	1.0	mg/l
Bromad	10	µg/l
Cadmiwm	5.0	µg/l
Cromiwm	50	µg/l
Copr	2.0	mg/l
Cyanid	50	µg/l
1, 2 dicloroethan	3.0	µg/l
Epiclorohydrin <sup>(1)</sup>	0.10	µg/l

**Statws** This is the original version (as it was originally made).

<i>Paramedrau</i>	<i>Crynodiad neu werth uchaf</i>	<i>Unedau mesur</i>
Fflworid	1.5	mg/l
Plwm	25 (tan 25 Rhagfyr 2013)	µg/l
	10 (o 25 Rhagfyr 2013 ymlaen)	µg/l
Mercwri	1.0	µg/l
Nicel	20	µg/l
Nitrad <sup>(ii)</sup>	50	mg/l
Nitraid <sup>(iii)</sup>	0.5 (neu 0.1 yn achos gweithfeydd trin)	mg/l
Plaleiddiaid <sup>(iii)</sup> —		
Aldrin	0.030	µg/l
Dieldrin	0.030	µg/l
Heptaclor	0.030	µg/l
Heptalor epocsid	0.030	µg/l
Plaleiddiaid eraill	0.10	µg/l
Cyfanswm plaleiddiaid <sup>(iv)</sup>	0.50	µg/l
Hydrocarbonau polysyclig aromatig <sup>(v)</sup>	0.10	µg/l
Seleniwm	10	µg/l
Tetracloroethen a Thricloroethen <sup>(vi)</sup>	10	µg/l
Trihalomethanau: Cyfanswm <sup>(vii)</sup>	100	µg/l
Finyl clorid <sup>(i)</sup>	0.50	µg/l

(i) Mae'r gwerth paramedrig yn cyfeirio at y crynodiad monomerau gweddillol yn y dŵr fel y'i cyfrifir yn ôl manylebau o uchafswm y gollyngiad o'r polymer cyfatebol mewn cyffyrddiad â dŵr. Rheolir hyn drwy gyfrwng manylebau cynnyrch.

(ii) Gweler hefyd y fformiwla nitrad-nitraid yn rheoliad 4(c).

(iii) At y dibenion hyn, ystyr "plaleiddiaid" yw:

    pryfleiddiaid organig  
    chwynleiddiaid organig  
    ffyngeleiddiaid organig  
    nematoleiddiaid organig  
    gwiddonleiddiaid organig  
    algaleiddiaid organig  
    llygodleiddiaid organig  
    llysnafedleiddiaid organig

a chynhyrchion perthynol (ymhlith eraill, rheoleiddwyr tyfiant) a'u metabolion a'u cynhyrchion diraddio ac adweithio perthnasol.

Y plaleiddiaid hynny, yn unig, sy'n debygol o fod yn bresennol mewn cyflenwad penodol sydd angen eu monitro.

(iv) Ystyr "cyfanswm plaleiddiaid" yw swm y crynodiadau o'r plaleiddiaid unigol a ganfyddir ac a feintiolir yn y broses monitro.

(v) Y cyfansoddion penodedig yw:  
    benso(b)ffloranthen

benso(k)ffloranthen  
benso(ghi)perylene  
indeno(1,2,3-cd)pyren.

Mae'r gwerth paramedrig yn gymwys i swm y crynodiadau o'r cyfansoddion unigol a ganfyddir ac a feintiolir yn y broses monitro.

(vi) Mae'r gwerth paramedrig yn gymwys i swm y crynodiadau o'r cyfansoddion unigol a ganfyddir ac a feintiolir yn y broses monitro.

(vii) Y cyfansoddion penodedig yw:

clorofform  
bromofform  
dibromocloromethan  
bromodicloromethan.

Mae'r gwerth paramedrig yn gymwys i swm y crynodiadau o'r cyfansoddion unigol a ganfyddir ac a feintiolir yn y broses monitro.

### Gofynion cenedlaethol — Crynodiadau neu werthoedd rhagnodedig

<i>Paramedrau</i>	<i>Crynodiad neu werth uchaf neu gyflwr</i>	<i>Unedau mesur</i>
Alwminiwm	200	µg/l
Lliw	20	mg/l Pt/Co
Haearn	200	µg/l
Manganîs	50	µg/l
Arogl	Derbyniol a dim newid annormal	
Sodiwm	200	mg/l
Blas	Derbyniol a dim newid annormal	
Tetracloromethan	3	µg/l
Cymylogrwydd	4	NTU

## RHAN 2

### Paramedrau dangosyddion

#### TABL C

#### Crynodiadau, gwerthoedd neu gyflyrau rhagnodedig

<i>Paramedrau</i>	<i>Crynodiad neu werth uchaf neu gyflwr (oni ddatgenir yn wahanol)</i>	<i>Unedau mesur</i>
Amoniwm	0.50	mg/l
Clorid <sup>(i)</sup>	250	mg/l

(i) Ni ddylai'r dŵr fod yn ymosodol.

(ii) Heb gynnwys tritiwm, potasiwm-40, radon na chynhyrchion dadfeilio radon.

(iii) Yn achos trin dŵr wyneb yn unig, neu ddŵr daear y dylanwadwyd arno gan ddŵr wyneb

**Statws** This is the original version (as it was originally made).

<i>Paramedrau</i>	<i>Crynodiad neu werth uchaf neu gyflwr (oni ddatgenir yn wahanol)</i>	<i>Unedau mesur</i>
<i>Clostridium perfringens</i>		
(gan gynnwys sborau)	0	Nifer/100ml
Bacteria coliform	0	Nifer/100ml
		(Nifer/250ml yn achos dŵr a roddir mewn poteli neu gynwysyddion)
Cyfrifau cytrefi	Dim newid annormal	Nifer/1ml ar 22°C
	Dim newid annormal	Nifer/1ml ar 37°C
Dargludedd <sup>(i)</sup>	2500	µS/cm ar 20°C
ŏonau hydrogen	9.5 (gwerth uchaf)	gwerth pH
	6.5 (gwerth isaf) (yn achos dŵr llonydd a roddir mewn poteli neu gynwysyddion y gwerth isaf yw 4.5)	gwerth pH
Sylffad <sup>(i)</sup>	250	mg/l
Cyfanswm dos dynodol (ar gyfer ymbelydredd) <sup>(ii)</sup>	0.10	mSv/blwyddyn
Cyfanswm carbon organig (CCO)	Dim newid annormal	mgC/l
Tritiw		
(ar gyfer ymbelydredd)	100	Bq/l
Cymylogrwydd <sup>(iii)</sup>	1	NTU
<b>(i)</b> Ni ddylai'r dŵr fod yn ymosodol.		
<b>(ii)</b> Heb gynnwys tritiwm, potasiwm-40, radon na chynhyrchion dadfeilio radon.		
<b>(iii)</b> Yn achos trin dŵr wyneb yn unig, neu ddŵr daear y dylanwadwyd arno gan ddŵr wyneb		

ATODLEN 2

Rheoliad 9

Monitro

**RHAN 1**

Monitro drwy wiriadau

**Samplu**

1.—(1) Rhaid i awdurdod lleol ymgymryd â monitro drwy wiriadau yn unol â'r Rhan hon.

(2) Ystyr monitro drwy wiriadau yw samplu ar gyfer pob paramedr yn Nhabl 1 yn yr amgylchiadau a restrir yn y tabl hwnnw er mwyn—

- (a) penderfynu a yw'r dŵr yn cydymffurfio â'r crynodiadau neu werthoedd yn Atodlen 1;
- (b) darparu gwybodaeth am ansawdd organoleptig a microbiolegol y dŵr; ac
- (a) penderfynu pa mor effeithiol fu'r driniaeth a roddwyd i'r dŵr, gan gynnwys y diheintio.

**Tabl 1**

**Monitro drwy wiriadau**

<i>Paramedr</i>	<i>Amgylchiadau</i>
Alwminiwm	Pan ddefnyddir fel clystyrydd neu pan fo'r dŵr yn tarddu o ddyfroedd wyneb, neu y dylanwedir arno gan ddyfroedd wyneb
Amoniwm	Ym mhob cyflenwad
<i>Clostridium perfringens</i> (gan gynnwys sborau)	Pan fo'r dŵr yn tarddu o ddyfroedd wyneb, neu y dylanwedir arno gan ddyfroedd wyneb
Bacteria coliform	Ym mhob cyflenwad
Cyfrifau cytrefi	Ym mhob cyflenwad
Lliw	Ym mhob cyflenwad
Dargludedd	Ym mhob cyflenwad
<i>Escherichia coli</i> ( <i>E. coli</i> )	Ym mhob cyflenwad
Crynodiad ionau hydrogen	Ym mhob cyflenwad
Haearn	Pan ddefnyddir fel clystyrydd neu pan fo'r dŵr yn tarddu o ddyfroedd wyneb, neu y dylanwedir arno gan ddyfroedd wyneb
Manganîs	Pan fo'r dŵr yn tarddu o ddyfroedd wyneb, neu y dylanwedir arno gan ddyfroedd wyneb
Nitrad	Pan arferir cloramineddio
Nitraid	Pan arferir cloramineddio
Arogl	Ym mhob cyflenwad
<i>Pseudomonas aeruginosa</i>	Yn achos dŵr mewn poteli neu gynwysyddion yn unig
Blas	Ym mhob cyflenwad
Cymylogrwydd	Ym mhob cyflenwad

**Amllder y samplu**

2.—(1) Rhaid samplu ar yr amllderau a bennir yn Nhabl 2.

**Tabl 2****Amllder samplu ar gyfer monitro drwy wiriadau**

<i>Cyfaint mewn m<sup>3</sup>/diwrnod</i>	<i>Amllder samplu bob flwyddyn</i>
≤ 10	1
> 10 ≤ 100	2
> 100 ≤ 1,000	4
> 1,000 ≤ 2,000	10
> 2,000 ≤ 3,000	13
> 3,000 ≤ 4,000	16
> 4,000 ≤ 5,000	19
> 5,000 ≤ 6,000	22
> 6,000 ≤ 7,000	25
> 7,000 ≤ 8,000	28
> 8,000 ≤ 9,000	31
> 9,000 ≤ 10,000	34
> 10,000	4 + 3 am bob 1,000 m <sup>3</sup> /diwrnod o gyfanswm y cyfaint (gan dalgrynnu i fyny i'r lluosrif agosaf o 1,000 m <sup>3</sup> /diwrnod)

(2) Caiff awdurdod lleol leihau amllder y samplu ar gyfer paramedr i amllder o ddim llai na'r hanner—

- (a) os yw'r awdurdod lleol o'r farn bod ansawdd y dŵr yn y cyflenwad yn annhebygol o ddirywio;
- (b) yn achos ïonau hydrogen, os nad fu gwerth pH y paramedr yn is na 6.5 nac yn uwch na 9.5; ac
- (c) ym mhob achos arall, os yw canlyniadau'r samplau a gymerwyd at ddibenion monitro'r paramedr dan sylw, ym mhob un o ddwy flynedd ddilynol, yn gyson ac yn sylweddol is na'r crynodiadau neu'r gwerthoedd a bennir yn Atodlen 1.

(2) Caiff yr awdurdod lleol bennu amllder uwch ar gyfer unrhyw baramedr os yw o'r farn ei bod yn briodol cymryd i ystyriaeth ganfyddiadau unrhyw asesiad risg, ac yn ychwanegol caiff fonitro unrhyw beth arall a nodir yn yr asesiad risg.

(3) Er gwaethaf y darpariaethau yn is-baragraff (2), rhaid cymryd o leiaf 1 sampl y flwyddyn.

**RHAN 2****Monitro drwy archwiliad****Samplu**

3.—(1) Rhaid i awdurdod lleol ymgymryd â monitro drwy archwiliad yn unol â'r Rhan hon.

(2) Ystyr monitro drwy archwiliad yw samplu ar gyfer pob paramedr a restrir yn Atodlen 1 (ac eithrio'r paramedrau a samplir eisoes o dan y monitro drwy wiriadau) er mwyn darparu'r wybodaeth sydd ei hangen i benderfynu a yw'r cyflenwad preifat yn bodloni pob crynodiad, gwerth neu gyflwr a bennir yn yr Atodlen honno ac, os defnyddir diheintio, gwirio bod sgil-gynhyrchion diheintio mor isel ag y bo modd heb leihau effeithiolrwydd y diheintio.

(3) Caiff yr awdurdod lleol, am ba bynnag gyfnod a benderfynir ganddo, hepgor paramedr o fonitro cyflenwad drwy archwilio—

- (a) os yw o'r farn bod y paramedr dan sylw yn annhebygol o fod yn bresennol yn y cyflenwad neu system gyda chrynodiad neu werth sy'n peri risg y gallai'r cyflenwad preifat fethu â bodloni'r crynodiad, gwerth neu gyflwr a bennir yn Atodlen 1 mewn perthynas â'r paramedr hwnnw;
  - (b) ar ôl cymryd i ystyriaeth canfyddiadau unrhyw asesiad risg; ac
  - (c) ar ôl cymryd i ystyriaeth unrhyw ganllawiau a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru.
- (4) Caiff fonitro unrhyw beth arall a nodir yn yr asesiad risg.

#### Amllder y samplu

4.—(1) Rhaid ymgymryd â samplu yn unol â'r amllderau a bennir yn Nhabl 3.

**Tabl 3**

#### Amllder samplu ar gyfer monitro drwy archwiliad

<i>Cyfaint mewn m<sup>3</sup> /diwrnod</i>	<i>Amllder samplu bob blwyddyn</i>
$\leq 10$	1
$> 10 \leq 3,300$	2
$> 3,300 \leq 6,600$	3
$> 6,600 \leq 10,000$	4
$> 10,000 \leq 100,000$	3 + 1 am bob 10,000 m <sup>3</sup> /diwrnod o gyfanswm y cyfaint (gan dalgrynnu i fyny i'r lluosrif agosaf o 10,000 m <sup>3</sup> /diwrnod)
$> 100,000$	10 + 1 am bob 25,000 m <sup>3</sup> /diwrnod o gyfanswm y cyfaint (gan dalgrynnu i fyny i'r lluosrif agosaf o 25,000 m <sup>3</sup> /diwrnod)

(2) Caiff yr awdurdod lleol osod amllder uwch ar gyfer unrhyw baramedr os yw o'r farn ei bod yn briodol cymryd i ystyriaeth ganfyddiadau unrhyw asesiad risg.

### RHAN 3

#### Amllderau lleiaf monitro drwy wiriadau a monitro drwy archwiliad ar gyfer dŵr a roddir mewn poteli neu gynwysyddion

<i>Cyfaint<sup>1</sup> o ddŵr a gynhyrchir mewn poteli neu gynwysyddion fesul diwrnod (m<sup>3</sup>)</i>	<i>Monitro drwy wiriadau: nifer o samplau bob blwyddyn</i>	<i>Monitro drwy archwiliad: nifer o samplau bob blwyddyn</i>
≤ 10	1	1
>10≤60	12	1
> 60	1 am bob 5 m <sup>3</sup> /diwrnod o gyfanswm y cyfaint (gan dalgrynnu i fyny i'r lluosydd agosaf o 5 m <sup>3</sup> /diwrnod)	1 am bob 100 m <sup>3</sup> /diwrnod o gyfanswm y cyfaint (gan dalgrynnu i fyny i'r lluosydd agosaf o 100 m <sup>3</sup> /diwrnod)

**1** Cyfrifir y cyfeintiau fel cyfartaleddau dros flwyddyn galendr.

ATODLEN 3

Rheoliad 11

Samplu a dadansoddi

### RHAN 1

#### Cyffredinol

##### Samplau: cyffredinol

- 1.—(1) Rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau bod pob sampl—
  - (a) wedi ei chymryd gan berson cymwys gan ddefnyddio cyfarpar addas;
  - (b) yn gynrychiadol o'r dŵr yn y pwynt samplu ar adeg y samplu;
  - (c) heb ei halogi wrth ei chymryd;
  - (ch) wedi ei chadw ar y cyfryw dymheredd ac o dan y cyfryw amodau a fydd yn sicrhau na ddigwydd unrhyw newid perthnasol yn yr hyn a fesurir; ac
  - (d) yn cael ei dadansoddi yn ddi-oed, gan berson cymwys sy'n defnyddio cyfarpar addas.
- (2) Rhaid iddo sicrhau y dadansoddir y sampl gan ddefnyddio system o reolaethau ansawdd dadansoddi.
- (3) Rhaid i'r system honno gael ei gwirio gan berson—
  - (a) nad yw dan reolaeth y dadansoddwr na'r awdurdod lleol; a
  - (b) a gymeradwywyd gan Weinidogion Cymru at y diben hwnnw.

##### Dadansoddi samplau

- 2.—(1) Rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau bod pob sampl yn cael ei dadansoddi yn unol â'r paragraff hwn.



(2) Ar gyfer pob paramedr a bennir yng ngholofn gyntaf Tabl 1 yn Rhan 2 o'r Atodlen hon, pennir y dull o ddadansoddi yn ail golofn y tabl hwnnw.

(3) Ar gyfer pob paramedr a bennir yng ngholofn gyntaf Tabl 2 yn Rhan 2 o'r Atodlen hon mae'r dull yn un sydd â'r gallu—

(a) i fesur crynodiadau a gwerthoedd gyda'r gwiredd a thrachywiredd a bennir yn ail a thrydedd golofn y tabl hwnnw; a

(b) i ganfod y paramedr ar y terfyn canfod a bennir ym mhedwaredd golofn y tabl hwnnw.

(4) Yn achos ïonau hydrogen, rhaid i'r dull dadansoddi fod â'r gallu i fesur â gwiredd o 0.2 uned pH a thrachywiredd o 0.2 uned pH.

(5) Rhaid i'r dull dadansoddi a ddefnyddir ar gyfer y paramedrau arogl a blas fod yn alluog i fesur gwerthoedd hafal i'r gwerth paramedrig gyda thrachywiredd o 1 rhif gwanedu ar 25°C

(6) At y dibenion hyn—

“terfyn canfod” yw—

(a) tair gwaith y gwyriad safonol perthynol o fewn swp, o sampl naturiol sy'n cynnwys crynodiad isel o'r paramedr; neu

(b) pum gwaith y gwyriad safonol perthynol o fewn swp, o sampl gwag;

“trachywiredd” (sef yr hapgyfeiliornad) yw dwy waith gwyriad safonol (o fewn swp a rhwng sypiau) gwasgariad y canlyniadau o amgylch y cymedr;

“gwiredd” (y cyfeiliornad systematig) yw'r gwahaniaeth rhwng gwerth cymedrig y nifer fawr o fesuriadau mynych a'r gwir werth.

### **Awdurdodi dulliau amgen o ddadansoddi**

3.—(1) Caiff Gweinidogion Cymru awdurdodi defnyddio dull gwahanol i'r un a nodir ym mharagraff 2(2) os bodlonir hwy bod y dull hwnnw o leiaf yr un mor ddibynadwy.

(2) Cânt osod terfyn amser ar unrhyw awdurdodiad, a'i ddirymu unrhyw adeg.

### **Samplu a dadansoddi gan bersonau ac eithrio awdurdodau lleol**

4.—(1) Caiff awdurdod lleol ymuno mewn trefniant i unrhyw berson gymryd samplau a'u dadansoddi ar ran yr awdurdod lleol.

(1) Rhaid i awdurdod lleol beidio ag ymuno mewn trefniant o dan baragraff (1) oni fydd—

(a) yn fodlon y cyflawnir y dasg yn brydlon gan berson sy'n gymwys i'w chyflawni, a

(b) wedi gwneud trefniadau i sicrhau y caiff yr awdurdod lleol ei hysbysu ar unwaith ynghylch unrhyw doriad o'r Rheoliadau hyn, ac o unrhyw ganlyniad arall o fewn 28 diwrnod.

**RHAN 2****Dulliau dadansoddi****Tabl 1****Dulliau dadansoddi rhagnodedig**

<i>Paramedr</i>	<i>Dull</i>
<i>Clostridium perfringens</i> (gan gynnwys sborau)	Hidlo drwy bilen ac yna deor y bilen yn anerobig ar agar m-CP* ar $44 \pm 1^\circ\text{C}$ am $21 \pm 3$ awr. Cyfrifwch y cytreffi melyn di-draidd sy'n troi'n binc neu'n goch ar ôl eu datguddio i anweddau amoniwm hydrocsid am rhwng 20 a 30 eiliad.
Bacteria coliform	BS-EN ISO 9308-1
Cyfrifiad cytreffi $22^\circ\text{C}$ — rhestru niferoedd o ficro-organebau meithrinadwy	BS-EN ISO 6222
Cyfrifiad cytreffi $37^\circ\text{C}$ — rhestru niferoedd o ficro-organebau meithrinadwy	BS-EN ISO 6222
Enterococi BS-EN ISO 7899-2	
* Defnyddiwch y dull canlynol i wneud agar m-CP: Gwnewch gyfrwng gwaelodol sy'n cynnwys—	
Tryptos	30.0g
Echdynnyn burum	20.0g
Swcros	5.0g
L-cystein hydroclorid	1.0g
MgSO <sub>4</sub> .7H <sub>2</sub> O	0.1g
Porffor bromocresol	40.0mg
Agar	15.0g
Dŵr	1,000.0ml
Hydoddwch gynhwysion y cyfrwng gwaelodol, addaswch y pH i 7.6 ac awtoclafiwch ar $121^\circ\text{C}$ am 15 munud. Gadewch i'r cyfrwng oeri. Hydoddwch—	
D-seicloserin	400.0mg
Polymycin-B sylffad	25.0mg
Indocsyl-β-D-glwcosid	60.0mg
mewn 8ml o ddŵr di-haint ac ychwanegwch ef at y cyfrwng. Ychwanegwch at y cyfrwng—	
Hydoddiant 0.5% ffenolffthalein deuffosffad a ddiheintiwyd drwy hidlo	20.0ml
4.5% FeCl <sub>3</sub> .6H <sub>2</sub> O a ddiheintiwyd drwy hidlo	2.0ml

<i>Paramedr</i>	<i>Dull</i>
<i>Escherichia coli</i> (E. coli)	BS-EN ISO 9308-1
<i>Pseudomonas aeruginosa</i>	BS-EN-ISO 12780
* Defnyddiwrch y dull canlynol i wneud agar m-CP: Gwnewch gyfrwng gwaelodol sy'n cynnwys—	
Tryptos	30.0g
Echdynnyn burum	20.0g
Swcros	5.0g
L-cystein hydroclorid	1.0g
MgSO <sub>4</sub> .7H <sub>2</sub> O	0.1g
Porffôr bromocresol	40.0mg
Agar	15.0g
Dŵr	1,000.0ml
Hydoddwch gynhwysion y cyfrwng gwaelodol, addaswch y pH i 7.6 ac awtoclafiwrch ar 121°C am 15 munud. Gadewch i'r cyfrwng oeri. Hydoddwch—	
D-seicloserin	400.0mg
Polymycin-B sylffad	25.0mg
Indocsyl-β-D-glwcosid	60.0mg
mewn 8ml o ddŵr di-haint ac ychwanegwch ef at y cyfrwng. Ychwanegwch at y cyfrwng—	
Hydoddiant 0.5% ffenolffihalein deuffosffad a ddiheintiwyd drwy hidlo	20.0ml
4.5% FeCl <sub>3</sub> .6H <sub>2</sub> O a ddiheintiwyd drwy hidlo	2.0ml

**Statws** This is the original version (as it was originally made).

**Tabl 2**

**Nodweddion perfformiad rhagnodedig ar gyfer dulliau dadansoddi**

<i>Paramedrau</i>	<i>Gwiredd fel % o'r crynodiad neu werth neu fanyleb a ragnodir</i>	<i>Trachywiredd fel % o'r crynodiad neu werth neu fanyleb a ragnodir</i>	<i>Terfyn canfod fel % o'r crynodiad neu werth neu fanyleb a ragnodir</i>
Alwminiwm	10	10	10
Amoniwm	10	10	10
Antimoni	25	25	25
Arsenig	10	10	10
Bensen	25	25	25
Benso(a)pyren	25	25	25
Boron	10	10	10
Bromad	25	25	25
Cadmiwm	10	10	10
Clorid	10	10	10
Cromiwm	10	10	10
Lliw	10	10	10
Dargludedd	10	10	10
Copr	10	10	10
Cyanid <sup>(i)</sup>	10	10	10
1,2-dicloroethan	25	25	10
Fflworid	10	10	10
Haearn	10	10	10
Plwm	10	10	10
Manganîs	10	10	10
Mercwri	20	10	20
Nicel	10	10	10

Nodiadau:

- (i) Dylai'r dull dadansoddi benderfynu cyfanswm y cyanid ym mhob ffurf.
- (ii) Mae'r nodweddion perfformiad yn gymwys i bob plaeiddiad unigol a byddant yn dibynnu ar y plaeiddiad dan sylw.
- (iii) Mae'r nodweddion perfformiad yn gymwys i'r sylweddau unigol a bennir yn ôl 25% o'r gwerth paramedrig yn Rhan 1 o Dabl B yn Atodlen 1.
- (iv) Mae'r nodweddion perfformiad yn gymwys i'r sylweddau unigol a bennir yn ôl 50% o'r gwerth paramedrig yn Rhan 1 o Dabl B yn Atodlen 1.
- (v) Mae'r nodweddion perfformiad yn gymwys i'r gwerth rhagnodedig o 4 NTU.
- (vi) Mae'r nodweddion perfformiad yn gymwys i'r fanyleb o 1 NTU ar gyfer dŵr wyneb neu ddŵr daear y dylanwedir arno gan ddŵr wyneb.

<i>Paramedrau</i>	<i>Gwiredd fel % o'r crynodiad neu werth neu fanyleb a ragnodir</i>	<i>Trachywiredd fel % o'r crynodiad neu werth neu fanyleb a ragnodir</i>	<i>Terfyn canfod fel % o'r crynodiad neu werth neu fanyleb a ragnodir</i>
Nitrad	10	10	10
Nitraid	10	10	10
Plaleiddiaid a chynhyrchion perthynol <sup>(ii)</sup>	25	25	25
Hydrocarbonau aromatig polysyclig <sup>(iii)</sup>	25	25	25
Seleniwm	10	10	10
Sodiwm	10	10	10
Sylffad	10	10	10
Tetracloroethen <sup>(iv)</sup>	25	25	10
Tetracloromethan	20	20	20
Tricloroethen <sup>(iv)</sup>	25	25	10
Trihalomethanau:			
Cyfanswm <sup>(iii)</sup>	25	25	10
Cymylogrwydd <sup>(v)</sup>	10	10	10
Cymylogrwydd <sup>(vi)</sup>	25	25	25

Nodiadau:

- (i) Dylai'r dull dadansoddi benderfynu cyfanswm y cyanid ym mhob ffurf.
- (ii) Mae'r nodweddion perfformiad yn gymwys i bob pleleiddiad unigol a byddant yn dibynnu ar y pleleiddiad dan sylw.
- (iii) Mae'r nodweddion perfformiad yn gymwys i'r sylweddau unigol a bennir yn ôl 25% o'r gwerth paramedrig yn Rhan 1 o Dabl B yn Atodlen 1.
- (iv) Mae'r nodweddion perfformiad yn gymwys i'r sylweddau unigol a bennir yn ôl 50% o'r gwerth paramedrig yn Rhan 1 o Dabl B yn Atodlen 1.
- (v) Mae'r nodweddion perfformiad yn gymwys i'r gwerth rhagnodedig o 4 NTU.
- (vi) Mae'r nodweddion perfformiad yn gymwys i'r fanyleb o 1 NTU ar gyfer dŵr wyneb neu ddŵr daear y dylanwedir arno gan ddŵr wyneb.

ATODLEN 4

Rheoliadau 12 a 13

### Cofnodion

#### Cofnodion dechreuol

1.—(1) Rhaid i awdurdod lleol, cyn [ ], gofnodi nifer y cyflenwadau preifat yn ei ardal, ac ar gyfer pob cyflenwad unigol, rhaid iddo gofnodi—

- (a) enw'r cyflenwad ynghyd â nod adnabod unigryw;

- (b) y math o ffynhonnell;
  - (c) y lleoliad daearyddol gan ddefnyddio cyfeirnod grid;
  - (ch) amcangyfrif o nifer y bobl a wasanaethir gan y cyflenwad;
  - (d) amcangyfrif mewn metrau ciwbig o gyfaint dyddiol cyfartalog y dŵr a gyflenwir;
  - (dd) y math o fangre a gyflenwir;
  - (e) manylion am unrhyw broses a ddefnyddir i drin y dŵr a'i lleoliad;
  - (f) enw'r Asiantaeth Diogelu Iechyd y lleolir y cyflenwad yn ei hardal.
- (2) Rhaid iddo adolygu a diweddarau'r cofnod, o leiaf unwaith y flwyddyn
- (3) Rhaid iddo ddal gafael ar y cofnod am o leiaf 30 mlynedd

### Cofnodion ychwanegol

2.—(1) Ar gyfer pob cyflenwad unigol, rhaid iddo gofnodi pob un o'r canlynol o fewn 28 diwrnod ar ôl iddynt ddigwydd neu gael eu cwblhau—

- (a) cynllun a disgrifiad o'r cyflenwad;
- (b) y rhaglen ar gyfer monitro'r cyflenwad;
- (c) yr asesiad risg;
- (ch) dyddiad, canlyniadau a lleoliad unrhyw samplu a dadansoddi mewn perthynas â'r cyflenwad dan sylw, a'r rheswm dros gymryd y sampl;
- (d) canlyniadau unrhyw ymchwiliad a gynhelir yn unol â'r Rheoliadau hyn;
- (dd) unrhyw awdurdodiad;
- (e) unrhyw hysbysiadau a gyflwynir o dan adran 80 o Ddeddf y diwydiant Dŵr 1991, neu reoliad 18;
- (f) unrhyw weithred y cytunir sydd i'w chyflawni gan unrhyw berson o dan y Rheoliadau hyn;
- (ff) unrhyw gais a wneir i'r awdurdod lleol am samplu a dadansoddi, cynnal asesiad risg neu roi cyngor;
- (g) crynodeb o unrhyw gyngor a roddir mewn perthynas â'r cyflenwad.

(2) Rhaid iddo ddal ei afael yn yr asesiad risg a'r cofnodion samplu a dadansoddi am o leiaf ddeng mlynedd ar hugain, a phob cofnod arall o dan y paragraff hwn am o leiaf bum mlynedd.

ATODLEN 5

Rheoliad 21

### Ffioedd

#### Ffi

1. Caiff yr awdurdod lleol godi ffi, taladwy pan gyflwynir anfoneb, am y gweithgareddau a nodir yn y tabl canlynol; a swm y ffi fydd cost resymol darparu'r gwasanaeth, yn ddarostyngedig i'r uchafsymiau canlynol.

<i>Gwasanaeth</i>	<i>Uchafswm y ffi (£)</i>
Asesiad risg (am bob asesiad):	500
(i) Nid oes ffi'n daladwy pan gymerir ac y dadansoddir sampl er mwyn cadarnhau, yn unig, canlyniad dadansoddi sampl blaenorol.	

<i>Gwasanaeth</i>	<i>Uchafswm y ffi (£)</i>
Samplu (am bob ymweliad unigol) <sup>(i)</sup> :	100
Ymchwiliad (am bob ymchwiliad unigol):	100
Rhoi awdurdodiad( am bob awdurdodiad unigol):	100
Dadansoddi sampl—	
a gymerir o dan reoliad 10:	25
a gymerir yn ystod monitro drwy wiriadau:	100
a gymerir yn ystod monitro drwy archwiliad:	500

(i) Nid oes ffi'n daladwy pan gymerir ac y dadansoddir sampl er mwyn cadarnhau, yn unig, canlyniad dadansoddi sampl blaenorol.

### Personau sy'n atebol i dalu

2.—(1) Mae unrhyw berson sy'n gofyn am unrhyw beth o dan y Rheoliadau hyn yn atebol am y gost.

(2) Fel arall, mae ffioedd yn daladwy fel a bennir yn yr anfoneb, gan y person perthnasol fel y'i diffinnir yn adran 80(7) o Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991.

(3) Pan fo mwy nag un person yn atebol, yna, wrth benderfynu pwy ddylai wneud taliad i'r awdurdod lleol—

- (a) caiff yr awdurdod lleol rannu'r tâl rhyngddynt; a
- (b) rhaid i'r awdurdod lleol roi sylw i unrhyw gytundeb neu ddogfen arall a ddangosir iddo ynglŷn â'r telerau y cyflenwir y dŵr odanynt.

### EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn gweithredu Cyfarwydddeb y Cyngor 98/83/EC ar ansawdd dŵr a fwriedir i'w yfed gan bobl, (OJ Rhif 330, 5.12.1998, t. 32) mewn perthynas â chyflenwadau dŵr preifat. Maent yn dirymu ac yn disodli Rheoliadau Cyflenwadau Dŵr Preifat 1991 (O.S. 1991/2790). Diffinnir “cyflenwad preifat” yn adran 93(1) o Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991 fel cyflenwad a ddarperir yw fodd ac eithrio gan ymgymwrwr dŵr neu gyflenwr dŵr trwyddedig.

Mae Rhan 1 o'r Rheoliadau yn gwneud darpariaeth amrywiol mewn perthynas â safonau dŵr ar gyfer cyflenwadau preifat. Diffinnir o dan ba amgylchiadau yr ystyrir dŵr yn “iachus”. (rheoliad 4 ac Atodlen 1). Mae hefyd yn pennu'r gofynion sy'n gymwys pan ddiheintir dŵr (rheoliad 5) ac yn gosod dyletswydd ar bob awdurdod lleol i gynnal asesiad risg ynglŷn â phob cyflenwad preifat yn ei ardal (rheoliad 6).

*Statws* This is the original version (as it was originally made).

Mae Rhan 2 o'r Rheoliadau yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i fonitro cyflenwadau preifat (rheoliadau 7 i 10 ac Atodlen 2) ac i sicrhau bod pob sampl a gymerir yn cael ei dadansoddi yn y ffyrdd a bennir yn Atodlen 3 (rheoliad 11). Mae'n gwneud yn ofynnol hefyd bod yr awdurdod lleol yn paratoi ac yn cynnal cofnodion ar gyfer pob cyflenwad dŵr yn ei ardal (rheoliad 12 ac Atodlen 4) ac yn anfon copi o'r cofnodion at yr Arolygiaeth Dŵr Yfed ac at Weinidogion Cymru (rheoliad 13).

Mae Rhan 3 o'r Rheoliadau yn pennu'r gweithdrefnau sydd i'w dilyn pan nad yw'r dŵr yn iachus. Gwneir yn ofynnol bod awdurdodau lleol yn darparu gwybodaeth i'r bobl sy'n debygol o ddefnyddio'r dŵr (rheoliad 14) ac yn cynnal ymchwiliad (rheoliad 15). Os yw achos y dŵr afiachus yn y pibwaith o fewn annedd sengl, rhaid i awdurdodau lleol gynnig cyngor ar y mesurau sydd eu hangen i ddiogelu iechyd dynol. Fel arall, pan nad oes modd datrys y broblem yn anffurfiol, caiff awdurdodau lleol, mewn amgylchiadau diffiniedig, awdurdodi safonau gwahanol. Os na roddir awdurdodiad o'r fath, rhaid i awdurdodau lleol (neu yn achos annedd sengl, caiff awdurdodau lleol) gyflwyno hysbysiadau gwella i fynnu gwneud y cyflenwad yn iachus (rheoliadau 16 ac 17).

Mae Rhan 4 o'r Rheoliadau yn gwneud yn ofynnol cyflwyno hysbysiad i'r "person perthnasol" (fel y'i diffinnir yn adran 80 o Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991) os yw unrhyw gyflenwad yn achosi perygl posibl i iechyd dynol (rheoliad 18) ac yn darparu ar gyfer apelau a chosbau mewn cysylltiad â hysbysiadau o'r fath (rheoliadau 19 a 20).

Mae Rhan 5 o'r Rheoliadau yn gwneud darpariaeth ar gyfer talu ffioedd (rheoliad 21 ac Atodlen 5) ac yn dirymu Rheoliadau Cyflenwadau Dŵr Preifat 1991 ([O.S. 1991/2790](#)) o ran Cymru (rheoliad 22).

Paratowyd asesiad effaith rheoleiddiol llawn ar gyfer y Rheoliadau hyn, a gellir cael copïau ohono gan Yr Is-adran Newid yn yr Hinsawdd a Dŵr, Llywodraeth Cynulliad Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.